# TGAU

4531/02

# CYMRAEG

## UNED 1

## HAEN UWCH

A.M. DYDD IAU, 19 Ionawr 2012

$2\frac{1}{4}$ awr

4531 020001

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Mae **tair** adran i'r papur hwn. Dylech ateb **pob** adran.

Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.

Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.

Mae **un** cwestiwn yn Adran C.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua $1\frac{1}{4}$ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## ADRAN A

Darllenwch y ddau ddarn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Papur Fama (Papur Bro ardal Yr Wyddgrug)
Darn Darllen 2: Hanes yr Urdd

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **10 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Papur Fama (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Faint o bobl ifanc ardal Yr Wyddgrug sy'n aelodau o Aelwyd y Castell? [1]

(ii) Enwch **ddau** beth oedd yn rhaid i bob grŵp eu gwneud gydag ŵy yng Nglan-llyn. [2]

(iii) Enwch **ddau** beth y bu'r criw'n eu gwneud ar y cwrs rhaffau uchel. [2]

**[5]**

**2. Hanes yr Urdd (Darn Darllen 2)**

Bydd yr Urdd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90oed yn 2012. Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** ysgrifennwch **gyfweliad** gydag aelod o staff yr Urdd yn trafod datblygiad y mudiad.

Dylech gyfeirio at:

- gychwyn yr Urdd
- yr Urdd yn datblygu dros y blynyddoedd
- yr Urdd heddiw. [13]

Ysgrifennwch ar ffurf **cyfweliad**. [2]

Defnyddiwch wybodaeth o **Ddarn Darllen 2** yn unig.
Dylech ddefnyddio **eich geiriau eich hun**.
Dylech ysgrifennu rhwng **un** a **dwy** dudalen.

**[15]**

**3. Papur Fama (Darn Darllen 1)**
**Hanes yr Urdd (Darn Darllen 2)**

Edrychwch ar y **ddau** ddarn darllen a dywedwch pa ddarn, yn eich barn chi, sy'n denu sylw'r darllenydd orau a pham.

Gallwch gyfeirio at rai o'r canlynol yn y ddau ddarn wrth roi **rhesymau dros eich barn**:

- y math o iaith
- nodweddion arddull
- bwriad yr awdur
- pwy yw'r darllenwyr
- y cyflwyniad e.e. defnydd o brint, lluniau neu liw.

Wrth drafod y ddau ddarn gyda'i gilydd, rhaid cyfeirio at **bedwar** peth o Ddarn Darllen 1 a **phedwar** peth o Ddarn Darllen 2.

Dylech enghreifftio neu ddyfynnu i brofi eich pwyntiau lle bo'n briodol.

**[20]**

**[40 + 10 = 50]**

4531 020003

**TROSODD AR GYFER ADRAN B AC ADRAN C**



**Trosodd.**

## ADRAN B

- Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
- Nodwch rif y cwestiwn.
- Dylai eich ateb fod rhwng **un** a **dwy** ochr.
- Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
- Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

**4. Naill ai:**

*(a)* **Darn Creadigol**

Rydych ar ymweliad neu daith gyda'r ysgol. Ysgrifennwch **ymson** ar unrhyw adeg yn ystod y dydd.

**Neu:**

*(b)* **Darn ffeithiol**

Rydych chi wedi bod ar ymweliad neu daith gyda'r ysgol. Ysgrifennwch **adroddiad** i bapur newydd yn sôn am yr ymweliad neu'r daith.

## ADRAN C

**5. Defnyddio Iaith**

Mae 11 gwall yn y darn isod.

Mae un gwall yn y pennawd wedi ei gywiro'n barod fel enghraifft i chi.

**Antyr > Antur**

Rhestrwch a chywirwch y **10** gwall arall yn eich llyfryn ateb.

**[10]**

**Canolfan Antyr Sir Benfro**

**Lleoliad**
Lleolir Canolfan Antur Sir Benfro ar lan yr afon ac maen cynnig dewis da o weithgareddau. Mae mynyddoedd y Preseli, traethau hardd a coedwigoedd i gyd o fewn cyraedd i'r ganolfan hwn.

**Gweithgareddau**
Rydym yn cynnig cyrsiau hwylio, cychod modur, dringo clogwyni a llawer mwy mewn y ganolfan. Mae'r wal ddringo dan do yn boblogaidd iawn.

**Gwyliau**
Mae dim ots beth yw eich oedran, gallaf ni gyflwyno digon o antur i chi. Mae gwyliau yn Canolfan Antur Sir Benfro yn fwy da nag unrhyw le arall. Felly dewch yma i fwynhau gwyliau mwyaf anturus bywyd chi.

**TGAU**

4531/02-A

**CYMRAEG**

**UNED 1**

**HAEN UWCH**

A.M. DYDD IAU, 19 Ionawr 2012

2¼ awr

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN UWCH**


| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |

**DARN DARLLEN 1**

Papur Fama

# AELWYD Y CASTELL AR DAITH I'R GWERSYLL

**Mae Aelwyd yr Urdd newydd sbon wedi ei sefydlu yn ardal Yr Wyddgrug ac mae pethau'n mynd o nerth i nerth. Dyma Awen, Swyddog Ieuenctid Menter Iaith Sir y Fflint, yn dweud yr hanes.**

Dangoswyd diddordeb brwd mewn sefydlu Aelwyd yr Urdd yn ardal Yr Wyddgrug. Ar hyn o bryd, mae 28 o bobl ifanc y fro yn aelodau o Aelwyd y Castell. Mae'r aelwyd yn brofiad gwych i'r bobl ifanc. Dyma gyfle gwerthfawr i glywed y Gymraeg y tu allan i furiau'r dosbarth ac mae cymryd rhan yn y gweithgareddau yn datblygu hyder yr aelodau wrth siarad Cymraeg.

Os ydych chi yn y chweched dosbarth neu rhwng 16 a 25 mlwydd oed ac yn chwilio am gyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â mi ar y cyfeiriad awen@menteriaithsiryfflint.co.uk. Rydym yn cyfarfod yn wythnosol ac yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys twrnament pŵl, cwis a bingo.

Rydym newydd ddychwelyd o Wersyll yr Urdd Glan-llyn ar ôl treulio tridiau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous. Dyma adroddiad gan un o aelodau'r aelwyd a fu ar y daith.

## Adroddiad Rhiannon Owen

Bwriad y daith hon i Lan-llyn oedd dod i adnabod ein gilydd yn well drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a chodi hyder. Ar ôl rhannu'n dri grŵp cafodd pob grŵp ŵy i'w enwi a'i addurno. Roedd yn rhaid i ni fynd â'r ŵy gyda ni i bob gweithgaredd – a'i gadw'n gyfan!

Cawsom chwarae gemau fel 'Dal y llygoden' ac 'Amynedd' cyn mynd i lawr at y llyn a gwlychu o'n corun i'n sawdl! Buom yn chwarae cuddio gyda'r nos ond gan ei bod yn dywyll fel bol buwch cawsom dipyn o ofn!





Ar ôl brecwast ar yr ail fore cawsom sesiwn ar y cwrs rhaffau uchel yn dringo, neidio a siglo. Aethom ar y llyn ar ôl cinio er gwaetha'r gwynt a'r glaw. Mi wnaeth sawl person gwallgo neidio allan o'u canŵs i ddŵr iasoer y llyn.

Ar y bore olaf, cawsom ein gwobrwyo ac yna roedd rhaid ffarwelio. Yn anffodus, nid fy nhîm i enillodd ond diolch byth nad ni oedd yn olaf. Cafodd y tîm olaf lond plât o hufen yn eu hwynebau!

Roedd hwn yn brofiad gwych i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fedrwn ni ddim aros tan y cyfle nesaf i wneud rhywbeth tebyg.



## DARN DARLLEN 2

# Hanes yr Urdd

**Y Cyfnod Cynnar**
Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru gan Syr Ifan ab Owen Ewards yn 1922. Ei fwriad oedd creu mudiad i amddiffyn y Gymraeg. Er bod dros filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, edrychai'r dyfodol yn ddu i'r iaith. Roedd tad Syr Ifan ab Owen Edwards, O. M. Edwards, wedi ceisio sefydlu mudiad ar gyfer ieuenctid Cymru ddwywaith, sef Urdd y Delyn yn 1896 a Byddin Cymru yn 1911. Ni fu'r un o'r ymdrechion yn llwyddiannus ond bu ei fywyd a'i syniadau yn ysbrydoliaeth i'w fab. Yn 1922, apeliodd Syr Ifan ab Owen Edwards ar blant Cymru i ymuno â mudiad newydd o'r enw Urdd Gobaith Cymru Fach. Cafodd ymateb cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf ac erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf roedd gan y mudiad 720 o aelodau. Sefydlwyd Adran gyntaf yr Urdd yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922. Erbyn 1927 roedd yr aelodaeth wedi tyfu i dros 5,000 gyda nifer yr adrannau'n tyfu i 80.

**1920au-1950au**
Syniad nesaf Syr Ifan oedd i ddod â phlant ledled Cymru at ei gilydd mewn gwersyll Cymraeg. Ym Medi 1927, hysbyswyd darllenwyr y Cylchgrawn, *Cymru'r Plant*, fod gwersyll deg diwrnod i'w gynnal yn Llanuwchllyn am ddeg swllt yr un. Roedd y dulliau coginio'n syml a'r cyfleusterau'n brin. Deunaw o bebyll ac un marcî mawr oedd y gwersyll. Erbyn 1932, roedd Syr Ifan yn benderfynol o sefydlu gwersyll parhaol i'r Urdd a daeth Gwersyll yr Urdd Llangrannog i fodolaeth. Cafwyd pedair wythnos o wersyll yn ystod yr haf poeth hwnnw, gyda lle i 150 o wersyllwyr. Yna daeth gwersyll i blant hŷn Cymru yng Nglan-llyn. Roedd yno bosibiliadau o ran dringo, ymarfer corff a chwaraeon dŵr. Yn 1950, cynhaliwyd y gwersyll cyntaf yng Nglan-llyn gyda chwch modur 'Y Brenin Arthur' yn cludo gwersyllwyr ar draws y llyn o'r trên. Yn ogystal â datblygu gwersylloedd yn ystod y cyfnod hwn tyfodd yr Urdd i gynnwys:

- Aelwydydd oedd yn trefnu gweithgareddau amrywiol i'w haelodau.
- Eisteddfodau, gyda'r gyntaf yn cael ei chynnal yng Nghorwen yn 1929. Erbyn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1935, roedd miloedd o bobl yn tyrru yno. Newidiodd yr Eisteddfod dros y cyfnod hwn o orymdeithio a dathlu i ganolbwyntio mwy ar gystadlu a diwylliant.
- Sinema Gymraeg i hyrwyddo'r Urdd a Chymreictod ac aeth ffilm *Y Chwarelwr* ar daith o amgylch Cymru.
- Sul yr Urdd a ddatblygodd i fod yn wasanaeth mawr blynyddol.
- Mabolgampau – cynhaliwyd y gemau cyntaf yn Llanelli yn 1932.
- Neges Ewyllys Da flynyddol a gyhoeddwyd gan wahanol adrannau'r Urdd ledled Cymru.

**1960au-1980au**
Datblygodd yr Eisteddfod yn y cyfnod hwn i gynnwys Adran Wyddoniaeth a daeth perfformio pasiant yn ddigwyddiad blynyddol. Erbyn 1975 roedd 65,000 o bobl yn ymweld â'r Eisteddfod. Ganwyd Mr Urdd yn 1976 a dechreuodd yr Urdd werthu sticeri, bathodynnau, mygiau a chrysau T. Tyfu wnaeth y gwersylloedd yn ystod y cyfnod hwn hefyd a gwariwyd llawer o arian ar yr adeiladau ac ar ddatblygu gweithgareddau.





**Heddiw**
Erbyn heddiw, dyma brif fudiad ieuenctid Cymru ac mae ganddo 50,000 o aelodau. Mae gan yr Urdd 180 o staff, 10,000 o wirfoddolwyr a chynhelir 250,000 o sesiynau chwaraeon y flwyddyn. Sefydlir aelwydydd newydd yn gyson ar ôl i Eisteddfod yr Urdd ymweld ag ardaloedd amrywiol, er enghraifft Aelwyd CF1 (Caerdydd) ac Aelwyd yr Ynys (Ynys Môn). Mae gweithgareddau di-ri megis Jambori, chwaraeon, teithiau tramor a gwaith dyngarol yn sicrhau bod aelodau'r Urdd yn cael pob math o brofiadau cofiadawy a gwerthfawr. Gwireddwyd breuddwyd Syr Ifan ab Owen Edwards, felly, ac mae'r Urdd yn mynd o nerth i nerth.

www.urdd.org

CBAC WJEC

# TGAU

4531/02-B

## CYMRAEG
## *WELSH*

**UNED 1**
***UNIT 1***

**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***

A.M. DYDD IAU, 19 Ionawr 2012
*A.M. THURSDAY, 19 January 2012*

2¼ awr
*2¼ hours*

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**
***For the attention of the Examinations Officer***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.
Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Mae **tair** adran i'r papur hwn. Dylech ateb **pob** adran.

Mae **tri** chwestiwn yn Adran A.

Mae **un** cwestiwn yn Adran B - dewiswch **un** o'r testunau.

Mae **un** cwestiwn yn Adran C.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¼ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf 1 awr i gwblhau Adran B ac Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A 12 page answer booklet.*
*Reading Material for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*There are* ***three*** *sections in this paper. You should answer* **all** *sections.*

*There are* ***three*** *questions in Section A.*

*There is* ***one*** *question in Section B - choose* **one** *of the topics.*

*There is* ***one*** *question in Section C.*

*You are advised to spend approximately 1¼ hours to complete questions in Section A so that you may spend at least 1 hour on Section B and Section C.*

*Write your answers in the answer booklet provided.*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

CJ*(W12-4531-02-B)